# Cofnodion Pwyllgor y Ty

## Dyddiad: 21 Mehefin 2006
## Amser: 5.00pm (ar ôl y Cyfarfod Llawn)
## Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd, Bae Caerdydd

### Aelodau'n bresennol:

Y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Lorraine Barrett AC, Llafur
Peter Black AC, y Democratiaid Rhyddfrydol
William Graham AC, y Ceidwadwyr
Jane Hutt AC, Llafur

### Yn Bresennol:

David Melding AC, Ceidwadwyr (Cadeirydd yr Is-grwp Arlwyo)

### Swyddogion yn bresennol:

Dianne Bevan, Dirprwy Glerc y Cynulliad a Chlerc Pwyllgor y Ty
Nerys Evans, Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad
Gwyn Griffiths, Cynghorydd Cyfreithiol
Louise Hull, Cynorthwy-ydd Gweithredol i'r Llywyddion
John Grimes, Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad

### Ymddiheuriadau:

Janice Gregory AC, Llafur
Owen John Thomas AC, Plaid Cymru
Y Llywydd

| | |
|---|---|
| 1 | **Cyflwyniadau** |
| | |

| | |
|---|---|
| | 1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod a drefnwyd ar fyr rybudd i ystyried argymhelliad gan yr Is-grwp Arlwyo a fu'n gwerthuso tendrau a dderbyniwyd ar gyfer y contract arlwyo.<br><br>1.2 Pwysleisiodd fod angen sicrhau cyfrinachedd oherwydd yr ystyriaethau masnachol ac oherwydd gallai'r penderfyniad effeithio ar gyflogwr staff arlwyo'r Cynulliad.<br><br>1.3 Cyflwynodd David Melding, fel Cadeirydd yr Is-grwp, adroddiad yn nodi ei gasgliadau a chaniataodd y Cadeirydd amser i'r Aelodau ei ddarllen. |
| 2 | **Is-grwp Arlwyo Pwyllgor y Ty**<br>**Argymhelliad o ran Aildendro'r Contract Arlwyo** |
| | 2.1 Diolchodd Cadeirydd Pwyllgor y Ty i'r Cadeirydd ac Aelodau'r Is-grwp am eu holl waith wrth asesu'r tendrau. Er bod Pwyllgor y Ty wedi derbyn argymhelliad cadarn gan yr Is-grwp, dywedodd nad oedd angen i'r Pwyllgor wneud penderfyniad yn y cyfarfod hwn os oedd angen rhagor o amser i ystyried.<br><br>2.2 Wrth gyflwyno ei adroddiad, diolchodd David Melding i Aelodau'r Is-grwp am eu cyfraniad a'u hymrwymiad i'r gwaith a gwblhawyd. Diolchodd y swyddogion am eu cymorth gyda'r broses.<br><br>2.3 Dywedodd Mr Melding fod yr holl gwmnïau a oedd wedi tendro wedi cyflwyno cynigion o ansawdd uchel a bod y broses o'u gwerthuso wedi bod yn hirfaith. Nodwyd manylion dadansoddiad yr Is-grwp yn yr adroddiad. Yn gyffredinol, cyflwynodd Charlton House gynnig arloesol, bwyd o ansawdd uchel, a dyma'r cystadleuydd cryfaf ym marn yr Is-grwp.<br><br>2.4 Cytunwyd ar yr argymhelliad yn unfrydol.<br><br>2.5 Yn ystod y drafodaeth:<br><br>· Cymeradwyodd yr Aelodau gasgliadau cynharach y Pwyllgor y dylai'r contract gydymffurfio â'r fenter Living Wage. Nodwyd hefyd fod angen iddo fod yn gyson â |

| | |
|---|---|
| | chyflogau'r Cynulliad yn gyffredinol a bod angen gwneud rhagor o waith.<br><br>· Nododd yr Aelodau nad yw'r caffi cyhoeddus wedi bod ar agor ddigon hir i gael syniad pendant o ran yr arian a dderbynnir yn y dyfodol a bod y mater wedi'i gynnwys fel cyfrif ar wahân yn y cyfrifiadau. Y bwriad oedd ei gynnwys o fewn y prif gyfrif ar ôl tua blwyddyn. Cafodd hyn ei gynnwys yn y fanyleb ac mae'n berthnasol i gynigwyr.<br><br>· Dywedodd yr Is-grwp ei fod wedi gofyn i'r holl gontractwyr ynghylch y broses o newid contractwr yn ystod eu cyflwyniadau a'i fod yn hyderus gydag ymateb y cynigiwr llwyddiannus y gall ymdopi'n hawdd.<br><br>· Cadarnhaodd y swyddogion fod Charlton House, ynghyd â'r holl gynigwyr eraill wedi cadarnhau eu hymrwymiad i ddefnyddio cyflenwyr Masnach Deg.<br><br>2.6 Cytunodd y Pwyllgor yn unfrydol ei fod yn barod i wneud penderfyniad ac y dylid cynnig y contract i Charlton House ar yr amod bod swyddogion yn datrys ac yn dod i gasgliad ynghylch unrhyw faterion gweithdrefnol a chytundebol nas trafodwyd.<br><br>2.7 Pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd cadw hyn yn gyfrinachol nes bod y weithdrefn wedi'i chwblhau a nes ei fod yn briodol gwneud cyhoeddiad. |
| | Dyddiad y cyfarfod nesaf:13 Gorffennaf 2006<br><br>Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty |